Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Dyffryn Taf
## Heol y Gogledd
## Hendy-gwyn ar Daf
## Sir Gaerfyrddin
## SA34 0BD

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Dyffryn Taf

Mae Ysgol Dyffryn Taf yn ysgol gyfun cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 11-19 oed, a gynhelir gan Awdurdod Lleol Sir Gâr. Mae 922 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae hyn ychydig yn fwy nag ar adeg yr arolygiad diwethaf, pan oedd 900 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn ardal lled-wledig, ac mae disgyblion yn dod yno o orllewin Sir Gaerfyrddin a dwyrain Sir Benfro. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2013.

Mae ychydig dros 8% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%. Mae gan ryw 30% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 23%. Mae gan bron i 2% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sy'n agos at y cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.2%. Mae bron i 20% o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg, ac mae'r ysgol yn darparu addysg ddwyieithog ar gyfer un dosbarth ym mhob grŵp blwyddyn. Mae ychydig o dan 2% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel ail iaith.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2018. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth a thri phennaeth cynorthwyol, a gefnogir gan ddau gyfarwyddwr dysgu.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae Ysgol Dyffryn Taf yn ysgol gynnes a chynhwysol sy’n ganolog i’r gymuned y mae’n ei gwasanaethu. Mae ei hethos gofalgar, parchus a chynhwysol yn rhoi lles disgyblion wrth wraidd ei gwaith. Mae cymuned yr ysgol yn gweithio gyda’i gilydd mewn ffordd dosturiol a goddefgar. Caiff disgyblion eu cefnogi’n dda i gyflawni a’u hannog i fod yn uchelgeisiol ynglŷn â’u dyfodol. Fodd bynnag, mewn gwersi, nid yw lleiafrif o athrawon yn herio disgyblion i gyflawni o’u gorau.

Mae arweinwyr yr ysgol wedi ymrwymo i greu ysgol sy’n ymgorffori ei datganiad cenhadaeth, sef, ‘We can, we care’/‘Gallwn, Gofalwn’. Buont yn llwyddiannus wrth greu cymuned ddysgu sy’n cydnabod ac yn dathlu cyflawniad unigol. Maent yn adnabod agweddau ar yr ysgol y mae angen eu gwella ac mae ganddynt gynlluniau cydlynus i wella addysgu.

Mae’r ysgol yn rhoi cyfoeth o gyfleoedd i ddisgyblion wella a chyfoethogi eu dysgu. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd hyn. Maent yn deall y modd y mae’r profiadau eang hyn yn cyfrannu’n ddefnyddiol at eu dealltwriaeth o’r byd ac yn darparu medrau gwerthfawr i’w helpu i symud ymlaen i’r cam nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw darpariaeth yr ysgol wedi sicrhau cynnydd digon cryf ar gyfer yr holl ddisgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau cyflawniad i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cyflawni eu potensial ym mhob pwnc

A2 Gwella ansawdd yr addysgu, yn cynnwys lefel yr her mewn gwersi, i sicrhau bod yr addysgu yn diwallu anghenion pob un o'r disgyblion

A3 Lleihau amrywiad yn ansawdd yr asesu a'r adborth

A4 Gwella effaith dysgu proffesiynol, yn enwedig y dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar werthuso addysgu, ar gynnydd disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

*Bydd Ysgol Dyffryn Taf yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.*

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Digonol ac angen gwelliant

Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn adeiladu ar hyn i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'u pynciau. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn mewn gwersi. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau yn effeithiol. Er enghraifft, mewn hanes, mae disgyblion yn defnyddio medrau sy'n benodol i'r pwnc yn dda i ennill dealltwriaeth gadarn o ragfarn trwy archwilio'r rhesymau dros esgyniad y blaid Natsïaidd.

Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn herio eu hunain i gyflawni'n ddigon uchel. Maent yn treulio'n rhy hir yn cwblhau tasgau lefel isel neu'n rhoi atebion syml ac maent yn gyndyn i ddatblygu eu gwaith ymhellach, hyd yn oed pan gânt eu hannog i wneud hynny gan athrawon. Yn yr achosion hyn, nid yw disgyblion yn gwneud y cynnydd a ddisgwylir ohonynt. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio yn ddigon da. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn cwblhau tasgau lefel isel yn unig, fel copïo oddi ar y bwrdd neu ddilyn atebion wedi'u modelu. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig ac nid ydynt yn datblygu eu medrau meddwl yn ddigon da.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau gwrando effeithiol. Maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn ystyriol i sylwadau gan ddisgyblion eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad â rhuglder a chydlyniad. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn trafodaeth yn ystyriol, gan rannu eu safbwyntiau â hyder. Mae lleiafrif ohonynt yn mynegi eu safbwyntiau yn huawdl. Mae'r disgyblion hyn yn cynnig atebion meddylgar a chraff i gwestiynau gan ddefnyddio amrywiaeth eang o eirfa. Er enghraifft, mewn gwersi Saesneg, mae disgyblion yn cynnig pwyntiau treiddgar wrth drafod y ffordd y gallai cynulleidfa ymateb i ddiwedd Macbeth. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ymestyn eu hatebion yn ddigonol. Maent yn darparu atebion rhy syml ac nid ydynt yn ehangu ar eu syniadau. Yn aml, mae hyn oherwydd diffyg her gan eu hathrawon. Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau gwrando gwan. Yn yr achosion hyn, nid yw disgyblion yn ddigon sylwgar ac nid ydynt yn gwrando'n ddigon gofalus ar gyngor gan athrawon. O ganlyniad, nid ydynt yn glir ynglŷn â'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod o hyd i wybodaeth a ffeithiau mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn gyflym ac yn gywir. Mae llawer ohonynt yn dangos empathi â chymeriadau. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu hatebion i'r themâu a'r materion sy'n cael eu harchwilio mewn testunau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn feddylgar i gymeriad Carlson yn Of Mice and Men, gan ddangos dealltwriaeth o'r modd y mae ei gefndir wedi ffurfio ei ymagwedd amhleserus at fywyd. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad yn dda iawn i lunio casgliadau o blith amrywiaeth o destunau. Er enghraifft, mewn hanes, mae disgyblion yn llunio casgliadau ystyriol o amrywiaeth o destunau sy'n archwilio materion moesegol caethwasiaeth. O roi cyfle iddynt, mae lleiafrif o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn rhugl a gyda mynegiant dramatig. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn datblygu eu hatebion i destunau yn ddigon da. Maent yn darparu atebion rhy syml wrth ddehongli ystyr, gan ddibynnu ar fedrau darllen a deall sylfaenol yn hytrach na myfyrio ar fwriad yr awdur, er enghraifft.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol at ystod o ddibenion ac ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Maent yn creu ysgrifennu estynedig sydd wedi'i strwythuro'n dda ac yn cyfleu ystyr yn gydlynus. Mae ychydig o ddisgyblion yn saernïo eu hysgrifennu mewn ffordd hynod effeithiol, gan ddefnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc yn hyderus. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn gwneud camgymeriadau sylfaenol mynych yn eu gwaith. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn gysylltiedig â defnydd anghywir o atalnodi yn hytrach na sillafu.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif cyffredinol yn dda yn eu cyd-destun, ac yn unol â'u hoedran a'u gallu, ar y cyfan. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dehongli data yn annibynnol, ac yn defnyddio data yn dda. Er enghraifft, maent yn edrych ar gysylltiadau rhwng data i ateb cwestiynau mewn daearyddiaeth wrth archwilio'r microhinsawdd o gwmpas yr ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau elfennol, er enghraifft wrth gymhwyso medrau graff neu wrth gwblhau tasgau rhif sylfaenol, fel lluosi.

O roi cyfleoedd iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn briodol. Mewn ychydig o achosion, maent yn defnyddio amrywiaeth o offer TGCh i'w helpu i ddatrys problemau a dod o hyd i atebion. Er enghraifft, mewn TGCh, mae disgyblion yn defnyddio cronfeydd data ac yn creu gwefannau yn briodol, ac mewn dylunio a thechnoleg, mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o fedrau digidol i'w helpu â'u gwaith ymarferol.

O roi cyfle iddynt, mae mwyafrif y disgyblion yn dangos amrywiaeth o fedrau defnyddiol o ran eu dawn greadigol. Maent yn dangos eu bod yn fodlon rhoi cynnig ar syniadau newydd heb fod yn sicr o'r canlyniad yn y pen draw, ac yn defnyddio eu gwybodaeth a'u greddf i ymddiried yn eu crebwyll eu hunain. Er enghraifft, mewn dylunio a thechnoleg, mae disgyblion yn profi eu medrau rhaglennu i ddarganfod y ffyrdd gorau o drin symudiadau robot. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu syniadau gwreiddiol yn ddychmygus pan fydd yn ofynnol iddynt adlewyrchu arddull arlunwyr penodol. Mewn celf, mae disgyblion yn creu gwaith gwreiddiol sydd wedi'i ysbrydoli gan Tim Burton, gan ddefnyddio ei arddull o ran graffeg a gwawdluniau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn hyderus i ymgymryd â thasgau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio'n annibynnol a datrys problemau. Yn aml, mae gan y disgyblion hyn fedrau ymchwil gwerthfawr ac yn dangos y gallant ddefnyddio'r pwyntiau allweddol o wybodaeth i lunio casgliadau. Er enghraifft, yn y Dystysgrif Her Sgiliau, mae disgyblion yn ymchwilio i wybodaeth am gyfraddau tlodi plant ac yn ystyried y modd y caiff y rhain eu heffeithio gan ddylanwadau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd. Hefyd, mae mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso eu gwybodaeth wyddonol yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth am symudiadau gronynnau i ddeall theori osmosis.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau corfforol i ystod o gyd-destunau yn dda. Mae disgyblion cyfnod allweddol 4 yn defnyddio amrywiaeth o fedrau corfforol trosglwyddadwy gwerthfawr yn gysylltiedig â ffitrwydd personol yn dda. Mewn dylunio a thechnoleg, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau echddygol manwl i greu motiffau ffabrig yn ofalus. Mae disgyblion yng nghynhyrchiad yr ysgol yn dangos ymwybyddiaeth o bresenoldeb corfforol, llonyddwch a rheoli symudiadau wrth berfformio ar lwyfan.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, nid yw perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 wedi cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion eraill, ac nid yw disgyblion wedi gwneud cymaint o gynnydd â'r disgwyl.  Yn 2019, mae perfformiad yn agosach at berfformiad mewn ysgolion eraill tebyg.  Yn y Dystysgrif Her Sgiliau, mae disgyblion yn perfformio ychydig yn well na'r disgwyl.  Bu perfformiad nifer fach y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn amrywiol dros y tair blynedd ddiwethaf.  Yn 2019, perfformiodd y disgyblion hyn yn well na disgyblion tebyg mewn ysgolion tebyg ym mwyafrif y dangosyddion.

Caiff bron pob un o'r disgyblion eu cofrestru ar gyfer cymhwyster TGAU mewn Cymraeg ail iaith ac mae llawer ohonynt yn ennill cymhwyster lefel 2.  Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion afael addas ar ymadroddion i fynegi barn syml yn Gymraeg.  Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau Cymraeg yn eu gwersi Cymraeg.  Mae lleiafrif o ddisgyblion sy'n dilyn y cymhwyster TGAU mewn Cymraeg mamiaith yn gwneud cynnydd priodol mewn gwersi.  Er bod llawer o'r disgyblion hyn yn cyfathrebu'n briodol yn Gymraeg, mae eu hatebion yn fyr ac yn defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa.  Mae gan leiafrif ohonynt fedrau ysgrifennu gwan ac nid ydynt yn strwythuro eu hysgrifennu'n dda.  Enillodd lleiafrif o ddisgyblion gymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg mamiaith yn 2019.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, bu perfformiad yn y chweched dosbarth yn gryf, ac mae disgyblion sy'n dilyn cyrsiau lefel uwch yn perfformio'n well na'r disgwyl.  Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cyflawni cystal â'r disgwyl mewn cyrsiau galwedigaethol.

**Lles ac agweddau at ddysgu:  Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol ac yn gwybod ble i gael cymorth pan fydd angen.  Maent yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u cymuned leol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu bod yr ysgol yn ymateb yn dda i'w pryderon.  Pan fydd achosion o fwlio neu anghytuno, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu bod athrawon yn delio â'r rhain mewn modd amserol a sensitif.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol yn ystod gwasanaethau, gwersi, amser egwyl ac amser cinio.  Maent yn foesgar a chwrtais ac yn dangos moesau da at ymwelwyr, staff ac i'w gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn ymgynefino'n gyflym ac yn barod i ddysgu.  Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n hwyr ac nid oes gan ychydig iawn ohonynt yr offer priodol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio'n llwyddiannus mewn gwersi, ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith.  Maent yn gwrando ar yr athro ac ar ei gilydd yn dda ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu.  Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n dda yn annibynnol, mewn parau a grwpiau bach.  Er enghraifft, maent yn cydnabod cyfraniadau ei gilydd wrth drafod effaith gymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y diwydiant ffasiwn.  Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar yr athro, ac maent yn achosi ychydig o darfu ar lefel isel, sy'n amharu ar eu dysgu nhw eu hunain, a dysgu disgyblion eraill.

Mae llawer o ddisgyblion yn cwblhau tasgau yn drylwyr, gan ymfalchïo yng nghyflwyniad eu gwaith.  Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dangos gwydnwch a

dyfalbarhad addas.  Er enghraifft, defnyddiant brofi a methu yn effeithiol i ddatrys problemau cymhleth, er enghraifft wrth gyfrifo perimedr siapiau cymhleth.  Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynorthwyo ei gilydd yn dda o’u gwirfodd ac yn ddigymell.  Er enghraifft, yn ystod gwersi addysg gorfforol yn y gampfa, maent yn darparu anogaeth ac adborth i gynorthwyo ei gilydd i wella’u perfformiad wrth wneud ymarfer corff.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwerthfawrogiad o bwysigrwydd bwyta’n iach ac ymgymryd â gweithgarwch corfforol rheolaidd.  Mae mwyafrif ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol rheolaidd amser cinio ac ar ôl yr ysgol.  Er enghraifft, maent yn defnyddio campfa’r ysgol yn rheolaidd i wella eu ffitrwydd corfforol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol yn dda.  Mae disgyblion hŷn yn mentora disgyblion iau yn effeithiol i’w cynorthwyo â’u dysgu a’u helpu i ymgynefino yn yr ysgol.  Yn ychwanegol, mae nifer hynod uchel o ddisgyblion yn cwblhau eu gwobrau Dug Caeredin ar lefelau efydd, arian ac aur.

Mae pwyllgor elusennol yr ysgol, dan arweiniad y chweched dosbarth, yn cefnogi amrywiaeth o elusennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.  Mae’r pwyllgor wedi cydlynu ystod o ddigwyddiadau yn llwyddiannus.  O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn fodlon cefnogi sefydliadau elusennol, ac maent wedi codi arian ar gyfer y banc bwyd lleol a’r elusen ryngwladol, ‘Shelter Box’, sy’n darparu cymorth brys i leddfu effeithiau trychinebau ar gyfer teuluoedd ledled y byd.  Trwy gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, mae disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o’r hyn y mae’n ei olygu i fod yn ddinesydd moesegol a gwybodus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Digonol ac angen gwelliant**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gref ac yn cyfleu eu gwybodaeth fanwl yn briodol i ymgysylltu â disgyblion, ac ennyn eu diddordeb.  Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu perthynas gref gyda disgyblion, sy’n meithrin ymgysylltu â dysgu mewn amgylchedd cadarnhaol a chefnogol.

Mae llawer o athrawon yn cynnig esboniadau clir o gysyniadau ac mae ganddynt ddisgwyliadau addas o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni.  Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio eu gwersi’n dda i ddal dychymyg disgyblion ac ennyn eu chwilfrydedd.  Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn rhoi gweithgareddau dysgu yn eu trefn yn briodol i sicrhau lefel ddilyniadol o her.  Maent yn cynnal gwersi ar gyflymdra addas sy’n sicrhau bod disgyblion yn cynnal eu diddordeb a’u hymrwymiad i ddysgu.  Er enghraifft, mewn addysg gorfforol, mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o offer ffitrwydd i ennyn diddordeb disgyblion trwy gydol y wers.  Fodd bynnag, nid oes gan leiafrif o athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ddisgyblion, ac nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau sy’n herio disgyblion.  Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Mae gan leiafrif o athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac maent yn cynllunio gweithgareddau dysgu yn fanwl iawn.  Maent yn sensitif i anghenion disgyblion ac yn addasu eu haddysgu yn unol â hynny.  Er enghraifft, mewn gwersi Ffrangeg, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i ddefnyddio adnoddau dysgu i ymestyn eu geirfa a datblygu eu gafael ar gystrawen wrth baratoi ar gyfer arholiad llafar.  Mae lleiafrif o athrawon yn creu ac yn defnyddio adnoddau dysgu deniadol i

ysgogi diddordeb disgyblion. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, wrth drafod boddi Tryweryn, mae defnydd medrus o sbardunau gweledol yn galluogi disgyblion i gael cipolwg cryf ar ddigwyddiadau go iawn. Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn darparu cydbwysedd clir rhwng eu mewnbwn ac amser ar gyfer dysgu'n annibynnol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol.

Mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn eithriadol o fedrus yn sicrhau datblygiad graddol ym medrau a gwybodaeth disgyblion. Er enghraifft, mewn hanes, wrth drafod esgyniad Hitler a'r blaid Natsïaidd, mae disgyblion yn dadansoddi ac yn cyfosod ffynonellau yn effeithiol iawn i esbonio a dehongli'r cymhellion a'r gweithredoedd. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn annog disgyblion i resymu ac esbonio eu hatebion yn llawn, gan gyfeirio at waith blaenorol yn eu llyfrau, i ddyfnhau eu dealltwriaeth. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn modelu arfer effeithiol i ysbrydoli disgyblion ac ymgysylltu â nhw i gyflawni safonau uchel yn eu gwaith. Er enghraifft, gwna athrawon ddefnydd effeithiol o waith disgyblion blaenorol i ddangos defnydd llwyddiannus o dôn pensil mewn darluniau. Yn ychwanegol, mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio a mireinio eu gwaith i ddatblygu eu hannibyniaeth mewn amgylchedd strwythuredig a chefnogol.

Mewn ychydig o wersi, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ddisgyblion. Nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau yn ddigon gofalus i gyd-fynd â galluoedd disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd annigonol.

At ei gilydd, mae effaith yr asesu a'r adborth i ddisgyblion yn rhy amrywiol. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr ac yn sicrhau bod disgyblion yn mireinio eu gwaith neu'n cywiro eu camdybiaethau eu hunain. Mewn mwyafrif o achosion, mae athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig a thasgau ychwanegol defnyddiol i ddisgyblion sy'n darparu cyfleoedd iddynt wella eu gwaith. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb i'w hawgrymiadau. Mae llawer o athrawon yn defnyddio technegau holi effeithiol i ddatblygu meddwl disgyblion, ac asesu eu dealltwriaeth. Mae'r athrawon hyn yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus ac maent yn fedrus yn addasu gweithgareddau i fynd i'r afael ag unrhyw gamdybiaethau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn defnyddio holi yn ddigon da i herio meddwl disgyblion neu gynnwys y dosbarth cyfan mewn trafodaethau. Yn ychwanegol, mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn atgyfnerthu dysgu disgyblion cyn symud ymlaen i'r cam nesaf yn y wers. O ganlyniad, nid oes gan ddisgyblion afael ddigon cryf ar wybodaeth a medrau pynciol i wneud cynnydd effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang sydd â'r nod o symbylu a herio ei disgyblion. Ym Mlwyddyn 7, mae cwricwlwm 'Gallwn' ('We Can'), a gyflwynwyd yn ddiweddar iawn, wedi'i gynllunio i gynorthwyo'r disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol a gwybodus. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y fenter hon.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn darparu ystod addas o gyrsiau academaidd a galwedigaethol sy'n diwallu anghenion disgyblion. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno cwrs adeiladu i ymateb i anghenion y disgyblion a'r gymuned leol. Caiff y broses dewisiadau ei rheoli'n dda yng nghyfnod

allweddol 4 a'r chweched dosbarth, sy'n cynnwys ymgynghoriad anffurfiol defnyddiol sy'n rhoi cipolwg ar ddiddordebau disgyblion. Rhoddir amrywiaeth o brofiadau dysgu gwerth chweil i ddisgyblion mwy abl, fel dysgu Mandarin, i gyfoethogi eu haddysg ymhellach.

Mae'r ysgol yn cynnig rhaglen werthfawr o gyfleoedd cyfoethogi sy'n cynorthwyo disgyblion i ymestyn eu dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o weithgareddau chwaraeon, a chyfle i bob disgybl gymryd rhan yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn darparu ymweliadau addysgol gwerth chweil â gwyliau llenyddol, busnesau lleol a gwledydd fel Yr Eidal a Gwlad yr Iâ. Mae'r holl gyfleoedd hyn yn galluogi disgyblion i gymhwyso eu dysgu mewn cyd-destunau dilys. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant trwy'r cwricwlwm yn effeithiol hefyd. Er enghraifft, mewn hanes, mae disgyblion yn ymweld â'r cartref lleol i bensiynwyr i gyfweld â phobl am eu hatgofion am effaith yr Ail Ryfel Byd yn ardal Sir Gaerfyrddin. Mae disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn astudio lleiafrif o'u pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cynllunio effeithiol yr ysgol ar gyfer cyflwyno Bagloriaeth Cymru wedi sicrhau deilliannau cryf ar gyfer disgyblion. Mae hyn wedi cynnwys cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau yn y gwaith, fel sefydlu busnesau bach i godi arian ar gyfer elusennau.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae cynlluniau gwaith yn nodi cyfleoedd addas i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn darllen, ysgrifennu a llafaredd. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn raddol mewn gwersi.

Mewn ychydig o bynciau, er enghraifft mewn daearyddiaeth, caiff disgyblion gyfleoedd perthnasol i ymarfer eu medrau rhifedd. Fodd bynnag, nid yw cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd mewn pynciau heblaw mathemateg wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Caiff disgyblion gyfleoedd addas i ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ystod amser cofrestru. Hefyd, mae llyfrgell yr ysgol yn darparu ffyrdd hynod greadigol o ddatblygu a hyrwyddo darllen er pleser, fel y gymhorthfa ddarllen, ymweliadau gan adroddwyr stori proffesiynol a 'diwrnod dathlu awdur'. Mae gan yr ysgol ddulliau pwrpasol o ddarparu ymyriadau ar gyfer disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwannach, sy'n cefnogi eu cynnydd yn dda.

Mewn lleiafrif o achosion, caiff disgyblion gyfleoedd defnyddiol i ddefnyddio eu medrau TGCh fel dylunio tri dimensiwn mewn dylunio a thechnoleg a dylunio gwefannau mewn hanes. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r cynllunio i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae Ysgol Dyffryn Taf yn ysgol feithringar sy'n ganolog i'w chymuned. Mae ei hethos gofalgar, parchus a chynhwysol yn rhoi lles disgyblion wrth wraidd ei gwaith.

Mae tîm ymroddgar o staff yn darparu gofal ac arweiniad buddiol ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu. Mae pob un o'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn cynnig rhwydwaith cymorth

addas i sicrhau eu lles. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf ag amrywiaeth o wasanaethau arbenigol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymorth i gryfhau cymorth ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed.

Mae trefniadau a gweithgareddau pontio gwerthfawr yn cynorthwyo disgyblion i ymgynefino'n gyflym ac yn effeithiol â bywyd ysgol. Mae'r cynllun mentora cyfoedion yn datblygu medrau arwain disgyblion hŷn yn ogystal â helpu disgyblion ym Mlwyddyn 7 i ymgymryd yn hyderus â'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn darparu rhaglen gymorth fanylach ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio offeryn sgrinio lles yn effeithiol yn ystod y cyfnod pontio, ac wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, i nodi grwpiau sy'n agored i niwed ar gyfer ymyrraeth. Mae hyn yn galluogi disgyblion i elwa ar gymorth personoledig sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles emosiynol.

Mae'r tîm cymorth dysgu yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, gan sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd effeithiol yn unol â'u targedau. Mae'r disgyblion hyn yn elwa ar ystod gynhwysfawr o ymyriadau pwrpasol a thargedig yng nghanolfan astudio'r ysgol i ddatblygu eu hanghenion penodol a'u hanghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, er enghraifft cynlluniau darllen fesul parau, llythrennedd emosiynol a therapi chwarae effeithiol iawn. Cofnodir hyn yn effeithiol yn y map cynhwysfawr o'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Mae'r tîm cymorth dysgu yn rhoi disgrifiad manwl a defnyddiol i bob aelod o staff o anghenion unigol disgyblion trwy'r proffil un dudalen a'r cynlluniau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth hon, felly, nid yw'r cynllunio i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion mewn gwersi yn ddigon effeithiol ar draws pob pwnc.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o gyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a bod yn ddinasyddion gweithredol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae enghreifftiau nodedig yn cynnwys y cysylltiadau â'r cartrefi lleol i bobl hŷn, trefnu anrhegion Nadolig ar gyfer yr henoed yn y gymuned a chynnwys disgyblion yn y gymdeithas drafod.

Mae'r ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygiad cymdeithasol, creadigol a diwylliannol disgyblion trwy gynyrchiadau'r ysgol, eisteddfodau, a gweithgareddau fel Gwobr Dug Caeredin a'r system llysoedd. Cynigir amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon mewn ymgais i annog ffordd iach o fyw. Mae trefniadau priodol ar waith i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, gan gynnwys cyfleoedd mewn technoleg bwyd a gwersi lles.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn darparu arweiniad a gwybodaeth ddefnyddiol i baratoi disgyblion ar gyfer bywyd oedolyn ar agweddau pwysig fel addysg rhyw, diogelwch ar y rhyngrwyd a meddylgarwch. Rhoddir cyngor buddiol i ddisgyblion ynghylch dewisiadau gyrfa yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 mewn partneriaeth â'r gwasanaeth gyrfaoedd a busnesau lleol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno system olrhain gynhwysfawr sy'n galluogi dysgwyr ac athrawon ystafell ddosbarth unigol i olrhain a monitro cynnydd ac agweddau disgyblion at ddysgu yn briodol. Mae hyn wedi gwella gallu'r ysgol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion unigol, ond mae'n rhy gynnar i roi sylwadau ynghylch effaith hyn ar ddeilliannau.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer cyfathrebu â rhieni a gwarcheidwaid gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys trwy dechnoleg symudol. Mae'r ysgol yn darparu gweithdai buddiol ar gyfer rhieni i'w galluogi i gynorthwyo eu plant trwy'r ysgol. Mae adroddiadau interim ac adroddiadau diwedd blwyddyn yn darparu gwybodaeth addas i rieni am gynnydd disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Ers ei benodi yn 2018, mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir gyda nodau strategol priodol sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion pob disgybl. Mae'n darparu arweinyddiaeth sicr ac ymrwymiad gwirioneddol i greu ysgol sy'n cyflawni'r datganiad cenhadaeth, sef 'We Can, We Care' / 'Gallwn, Gofalwn'. Mae'r pennaeth wedi cyfleu ei weledigaeth yn glir i staff a llywodraethwyr ac mae wedi meithrin ymddiriedaeth yng nghymuned yr ysgol.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth, ar ôl cyfnod o ansefydlogrwydd, yn darparu cymorth pwrpasol i'r pennaeth. Erbyn hyn, maent yn cydweithio i gyflawni nodau strategol yr ysgol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi diwygio rolau'r uwch dîm arweinyddiaeth. Caiff eu cyfrifoldebau eu rhannu'n deg a'u deall gan staff eraill. Mae uwch arweinwyr yn modelu ac yn hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cyfrannu'n briodol at gyflawni blaenoriaethau strategol yr ysgol, sef codi safonau, gwella addysgu a datblygu medrau arwain. Mae arweinwyr bugeiliol yn effeithiol wrth sicrhau safonau uchel o ran lles disgyblion.

Mae uwch arweinwyr yn dwyn arweinwyr canol i gyfrif yn dda. Trwy drefniadau rheoli llinell effeithiol, maent yn monitro cynlluniau gwella ac yn canolbwyntio'n briodol ar safonau disgyblion. Maent yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o bwyntiau gweithredu yn llwyddiannus mewn cyfarfodydd dilynol. Yn gyffredinol, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae arweinwyr wedi sicrhau gwelliannau cymedrol mewn deilliannau yng nghyfnod allweddol 4, ac mewn lles. Erbyn hyn, mae disgyblion yn perfformio'n agosach at yr hyn a ddisgwylir ac maent yn eithriadol o falch o'u hysgol. Mae gwelliannau arwyddocaol eraill yn cynnwys olrhain cynnydd disgyblion yn agosach, a sicrhau deilliannau gwell yn y Dystysgrif Her Sgiliau yng nghyfnod allweddol 4.

Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yn addas. Maent yn cynnwys targedau perthnasol gyda deilliannau mesuradwy yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn wedi sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw targedau personol bob amser yn ddigon craff ac nid yw'r ysgol yn rheoli perfformiad staff nad ydynt yn addysgu yn ddigon da.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n dda ag ysgolion eraill, gan gynnwys ysgolion cynradd partner. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at gyfnod pontio academaidd a bugeiliol effeithiol ar gyfer disgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Mae prosesau ar gyfer hunanwerthuso yn helpu staff ar bob lefel i gael golwg realistig ar y cyfan ar gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae arweinwyr canol ac uwch arweinwyr yn gwerthuso deilliannau disgyblion yn effeithiol, ac yn defnyddio'r

wybodaeth hon i lywio cynllunio ar lefel ysgol gyfan, adrannol a bugeiliol. Mae calendr cynhwysfawr o weithgareddau i werthuso gwaith yr ysgol yn cynnwys arsylwadau gwersi defnyddiol, craffu ar waith ac arolygon disgyblion. Mae'r ystod eang hon o weithgareddau gwerth chweil yn darparu adborth a chamau gweithredu penodol buddiol. Mae arweinwyr yn rhannu'r canfyddiadau hyn yn effeithiol, yn enwedig ynghylch ansawdd yr addysgu, gyda staff yn ystod cyfarfodydd neu ddiwrnodau hyfforddiant 'addysgu a dysgu'. Fodd bynnag, tan yn ddiweddar, nid oedd arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon agos ar effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol yn holi barn disgyblion a rhieni yn effeithiol, ac yn gweithredu yn unol â nhw yn briodol. Er enghraifft, creodd y cyngor ysgol fersiwn ddefnyddiol sy'n hawdd i ddisgyblion ei defnyddio o gynllun datblygu'r ysgol. Yn ychwanegol, gwnaeth yr ysgol newidiadau i'r wisg ysgol ar ôl ymgynghori â disgyblion a rhieni.

Mae'r ysgol yn defnyddio canlyniadau o brosesau hunanwerthuso yn dda i gynllunio ar gyfer gwelliannau. Maent yn nodi blaenoriaethau ystyrlon a pherthnasol gyda chamau gweithredu manwl gywir i fynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys sylw i wella addysgu, datblygu arweinwyr a gwella safonau. Mae arweinwyr pwnc yn nodi blaenoriaethau adrannol penodol addas ac yn eu halinio'n llwyddiannus â rhai'r ysgol.

Bu arweinwyr yn llwyddiannus wrth sefydlu diwylliant sy'n hyrwyddo ac yn gwerthfawrogi dysgu proffesiynol parhaus ar gyfer pob un o'r staff. Maent wedi sicrhau bod gweithgareddau mynych i bob un o'r staff ehangu a mireinio eu gwybodaeth broffesiynol. Mae gan yr ysgol ystod o strategaethau effeithiol i rannu arfer dda ymhlith staff, fel sesiynau hyfforddi ac arsylwadau cymheiriaid. Bu'r gweithgareddau hyn yn llwyddiannus o ran codi ymwybyddiaeth am addysgu effeithiol ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar ansawdd yr addysgu, ar y cyfan.

Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau gwerth chweil â darparwyr eraill, gan gynnwys ysgolion uwchradd eraill a sefydliadau addysg uwch. Mae gan yr ysgol raglen glir a strwythuredig i gynorthwyo athrawon newydd gymhwyso, a chysylltiadau buddiol â sefydliadau hyfforddi athrawon.

Mae llywodraethwyr yn brofiadol ac yn darparu her ddefnyddiol i'r ysgol trwy wahanol bwyllgorau. Maent yn weithgar ym mywyd yr ysgol ac yn defnyddio eu harbenigedd i helpu ag agweddau ar waith yr ysgol, er enghraifft ffug gyfweliadau a chymryd rhan yng nghynhyrchiad blynyddol yr ysgol. Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a gwendidau'r ysgol.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb yn dda ac yn gwneud yn siŵr fod arian yn cael ei wario'n ddoeth er budd disgyblion a staff. Mae'r ysgol yn cynnal lefelau staffio addas ac mae rheolaeth ofalus dros gyfnod wedi sicrhau gwarged bach yn y gyllideb. Mae'r ysgol yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael iddi yn dda i gynnal amgylchedd dysgu addas, er enghraifft i adnewyddu'r hen gampfa. Mae'r ysgol yn defnyddio'i chyllid grant yn briodol. Mae'n gwneud defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i ddarparu cymorth a gwersi gwerthfawr ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2020